Cyllid ôl-raddedig
Doethuriaeth

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Nodiadau ymgeisio

## Ynglŷn â'r nodiadau hyn

Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i gwblhau'ch 'Ffurflen Gais Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig'.

Gallwch hefyd ymgeisio ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Sut i ddefnyddio'r nodiadau hyn

Ble gwelwch hyn yn eich ffurflen Cais Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig, mae'n golygu fod yna wybodaeth ychwanegol yn y nodiadau hyn i'ch helpu neu'ch cynghori.

Gallai hyn fod yn wybodaeth am sut i ateb cwestiwn neu adran neu gyfarwyddyd i anfon dogfennau ategol penodol.

Mae'r nodiadau hyn mewn adrannau ac wedi eu rhifo yn yr un modd â'r cwestiynau yn y ffurflen gais.

Darllenwch y nodiadau hyn – os na fyddwch chi'n ateb cwestiwn neu adran yn gywir neu os na fyddwch chi'n cynnwys y dogfennau rydym eu hangen, bydd unrhyw daliad yn cael ei oedi.

## Fformatau amgen

Mae'n ffurflenni a chanllawiau i gyd ar gael mewn Braille, print mawr neu sain. Os ydych chi angen y rhain, gallwch ofyn amdanynt trwy e-bostio eich enw, cyfeiriad a manylion y fformat rydych ei angen i **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu ffonio **0141 243 3686** (dim ond gyda cheisiadau am fformatau amgen y defnyddir y rhif hwn).

# Adran 1 Eich manylion

**1.1 Newid enw**

Os yw'ch enw wedi newid ers y cyhoeddwyd eich pasbort neu dystysgrif geni, bydd angen i chi brofi fod eich enw wedi newid yn gyfreithiol.

**Mae angen i chi anfon un o'r canlynol i ni:**

- eich gweithred newid enw; neu
- eich tystysgrif briodas neu ddogfennaeth partneriaeth sifil; neu
- eich amodol neu gorchymyn terfynol; neu
- eich tystysgrif ysgariad neu orchymyn diddymiad.

**1.5 Rhif Yswiriant Gwladol**

Ni allwn dalu eich benthyciad llawn hyd nes y byddwch wedi rhoi eich rhif Yswiriant Gwladol i ni.

Os nad ydych chi erioed wedi cael rhif Yswiriant Gwladol, gallwch adael y blwch rhif Yswiriant Gwladol yn wag a dal ati gyda'ch cais.

Byddwn yn cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau i wirio eich rhif Yswiriant Gwladol. Os nad oes gennych chi un, byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch cynghori sut i gael un.

Fel arall, gallwch fynd i **www.gov.uk/apply-national-insurance-number** i wneud cais am un.

# Adran 2 Eich astudio blaenorol

**2.2 Wedi sicrhau cymhwyster**

Os oes gennych chi:

- Ddoethuriaeth Uwch (e.e. DLitt, DSc, DTech, LLD, DD, DMus, DMedSc)
- Gradd Doethuriaeth (e.e.PhD/DPhil, EdD, DBA, DClinPsy)

**nid ydych yn gymwys i dderbyn Benthyciad Doethuriaeth Ôl-raddedig.**

# Adran 3 Eich cwrs gradd doethuriaeth ôl-raddedig

| | | |
|---|---|---|
| **3.1** | **Cwrs gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig llawn** | Os ydych chi'n defnyddio astudio neu brofiad blaenorol i osgoi rhan o'ch cwrs ac ychwanegu i radd doethuriaeth, allwch chi ddim derbyn Benthyciad Doethuriaeth Ôl-raddedig.<br>**Nid yw eich cwrs yn radd doethuriaeth llawn os yw'n un o'r canlynol:**<br>• Doethuriaeth trwy gyhoeddiad<br>• Doethuriaeth Uwch<br>Os nad ydych chi'n siŵr os ydych chi'n astudio cwrs Doethuriaeth Ôl-raddedig llawn, dylech ofyn i'ch prifysgol neu goleg. |
| **3.2** | **Cwrs yr ymgeisir ar ei gyfer** | **Hyd y cwrs**<br>Dylech ddewis y nifer o flynyddoedd yr ydych yn disgwyl fydd yn cymryd i chi gwblhau eich cwrs. Os ydych chi angen, gallwch newid hyd eich cwrs yn ddiweddarach. |
| **3.3** | **Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol** | Nid yw myfyrwyr yn gymwys i gael Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig os ydynt yn derbyn bwrsariaeth gwaith cymdeithasol. Os nad ydych chi'n siŵr a allwch chi ymgeisio am hyn, bydd angen i siarad gyda'ch prifysgol.<br>Os ydych chi wedi ymgeisio am hyn a chael eich gwrthod, mae angen i chi anfon eich llythyr gwrthodiad gyda'ch cais. Ni allwn dderbyn eich cais heb hyn. |
| **3.4** | **Bwrsariaeth y GIG** | Nid yw myfyrwyr yn gymwys i gael Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig os ydynt yn derbyn bwrsariaeth y GIG. Os nad ydych chi'n siŵr a allwch chi ymgeisio am hyn, bydd angen i siarad gyda'ch prifysgol. |
| **3.5** | **Cyllid y Cyngor Ymchwil** | Nid yw myfyrwyr yn gymwys i gael Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig os gallant gael Cyllid y Cyngor Ymchwil. Os nad ydych chi'n siŵr a allwch chi ymgeisio am hyn, bydd angen i siarad gyda'ch prifysgol neu goleg. |

### 3.6 Dysgu o Bell

A ydych chi'n astudio ar gwrs dysgu o bell oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch teulu yn y lluoedd arfog?

Os nad ydych chi'n astudio dysgu o bell oherwydd eich bod chi neu aelod o'r teulu yn y lluoedd arfog, rhaid i chi fod yn byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs i fod yn gymwys i gael Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig.

A ydych chi'n astudio ar gwrs dysgu o bell oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch teulu yn y lluoedd arfog?

Efallai y byddwch yn gymwys i gael cefnogaeth i astudio cwrs dysgu o bell os ydych chi neu aelod o'ch teulu yn gwasanaethu yn a thu allan i'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn un o'r canlynol:

- Y Gwasanaeth Llyngesol (y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol)
- Y Fyddin
- Yr Awyrlu Brenhinol
- Yr Heddlu Milwrol Brenhinol
- Y Gyrcas

**Bydd yr aelodau teulu canlynol yn fyfyrwyr cymwys:**

- cymar neu bartner sifil yn byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
- plentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
- Rhiant dibynnol yn byw gyda naill ai;
  - Blentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
  - cymar neu bartner sifil y plentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru

Os ydych chi'n astudio mewn gwlad wahanol i'r un yr ydych chi neu'ch aelod o'r teulu wedi eich lleoli, dim ond os ydych chi'n astudio llai na hanner eich cwrs yn y wlad honno allwch chi gael Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig.

**Yr hyn sydd angen i chi anfon**

Mae angen i chi anfon llythyr yn cadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad, neu gyfeiriad Swyddfa Bost y Lluoedd Arfog.

Os oes aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog, mae angen i chi anfon llythyr yn cadarnhau'r canlynol:

- ei enw
- ei gyfeiriad neu gyfeiriad Swyddfa Bost y Lluoedd Arfog (BFPO)
- eich enw
- ei berthynas gyda chi

Rhaid i'r llythyr a anfonwch gael ei stampio, llofnodi a dyddio gan Swyddog Cofnodion Uned y Lluoedd Arfog. Ni allwn dderbyn llungopi. Rydym yn argymell eich bod yn defnyddio eich cyfeiriad BFPO ar gyfer pob gohebiaeth.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio

### 4.1 & 4.2 Gwladolyn y DUI

Rydych chi'n wladolyn y Deyrnas Unedig os oes gennych chi basbort y Deyrnas Unedig neu os ydych chi'n gymwys i ymgeisio am un.

Os ydych chi wedi darparu eich manylion pasbort y Deyrnas Unedig yn adran 4, nid oes angen i chi anfon rhagor o dystiolaeth o'ch cenedligrwydd y Deyrnas Unedig.

**Os yw wedi dod i ben, neu ar fin dod i ben, mae angen i chi anfon:**

- llungopi o'ch tystysgrif geni neu fabwysiadu yn y DU

**Lluoedd arfog**

Os ydych chi, eich rhiant neu rieni neu bartner yn aelodau o'r lluoedd arfog, rhaid i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn y wlad yn y Deyrnas Unedig ble roeddech yn byw fel arfer pan wnaethoch chi/nhw ymrestru, oni bai eich bod yn byw yn barhaol mewn ardal arall o'r Deyrnas Unedig.

Gallwch dderbyn copïau ardystiedig o'ch tystiolaeth preswylio, wedi ei stampio â stamp eich uned. Dylech ddefnyddio eich cyfeiriad BFPO ar gyfer pob gohebiaeth.

### 4.1.1 Chagosiad gyda dinasyddiaeth Brydeinig a'u disgynyddion uniongyrchol

Rhaid i chi fod yn blentyn, yn wyres neu'n ddisgynnydd uniongyrchol arall i Chagosiad sydd â dinasyddiaeth Brydeinig er mwyn bod yn gymwys fel aelod o'r teulu.

Os ydych yn Chagosiad gyda dinasyddiaeth Brydeinig ac nad oes gennych basbort y DU, mae angen i chi anfon eich tystysgrif geni wreiddiol atom. Os ydych yn aelod o deulu unigolyn Chagosiad gyda dinasyddiaeth Brydeinig, mae angen i chi anfon dogfennau atom i ddangos eich bod yn ddisgynnydd uniongyrchol. Gallai hyn gynnwys:

- eich tystysgrif geni wreiddiol eich hun
- tystysgrifau geni rhieni, neiniau a theidiau neu eraill yr ydych yn ddisgynyddion uniongyrchol iddynt
- gweithredoedd newid enw

### 4.3 Gwladolyn Gwyddelig

Rhaid i chi anfon eich pasbort Gweriniaeth Iwerddon neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol.

Os oes gennych chi basbort y DU, dylech ddarparu eich manylion pasbort yn adran 4 gan nad oes angen i chi anfon rhagor o dystiolaeth o'ch cenedligrwydd.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.4 Aelod o deulu gwladolyn y DU**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- plentyn, llysblentyn, disgynnydd uniongyrchol arall

i wladolyn y DU.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn aelod o deulu gwladolyn y DU trwy anfon ei basbort/phasbort.

Rhaid i chi hefyd anfon prawf o'ch perthynas i'r gwladolyn y DU.

Gallai hyn fod:

- eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil; **neu**
- dystysgrif geni yn dangos eich enw ac enw'r gwladolyn y DU; **a**
- thystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil os ydych chi neu'r gwladolyn y DU yn llysblentyn.

Os ydych yn blentyn, yn llysblentyn neu'n ddisgynnydd uniongyrchol arall i wladolyn y DU, rhaid i chi fod dan 21 oed neu'n ddibynnol ar yr unigolyn neu briod neu bartner sifil y person.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.26**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.5 Aelod o deulu gwladolyn Gwyddelig**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- rhiant/llys-riant neu berthynas uniongyrchol esgynnol arall;
- plentyn, llysblentyn neu ddisgynnydd uniongyrchol arall

i berson sy'n wladolyn Gwyddelig.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Diffinnir perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol fel rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid biolegol ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati.

Os ydych yn blentyn, yn llysblentyn neu'n ddisgynnydd uniongyrchol arall, rhaid i chi fod o dan 21 oed neu'n ddibynnol ar yr aelod o'r teulu sy'n wladolyn Gwyddelig.

Os oes gennych statws Sefydlog yr UE ac wedi bod yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor am dair blynedd, mae perthnasau llinell esgynnol uniongyrchol dinasyddion Gwyddelig yn gymwys.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i gadarnhau bod eich aelod o'r teulu yn wladolyn Gwyddelig a'ch perthynas i'r aelod o'r teulu trwy anfon ei basbort Gweriniaeth Iwerddon neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol a'ch tystysgrif geni, priodas neu bartneriaeth sifil (os yw hyn yn dangos eich perthynas i'r unigolyn).

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.26**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.6 Aelod o deulu person o Ogledd Iwerddon**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

• ŵr, gwraig, partner sifil;

• rhiant/llys-riant neu berthynas uniongyrchol esgynnol arall;

• plentyn, llysblentyn neu ddisgynnydd uniongyrchol arall

i berson sy'n wladolyn o Ogledd Iwerddon.

Os ydych yn blentyn, yn llysblentyn neu'n ddisgynnydd uniongyrchol arall, rhaid i chi fod o dan 21 oed neu'n ddibynnol ar berson Gogledd Iwerddon.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn.

Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Diffinnir perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol fel rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid biolegol ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati.

Os ydych chi wedi bod yn y DU a'r Ynysoedd ers tair blynedd ac roedd person Gogledd Iwerddon yn y DU, yn uniongyrchol perthnasau llinell esgynnol person Gogledd Iwerddon yn ddim yn nac gymwys.

Os oes gennych statws Sefydlog yr UE ac wedi bod yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor am dair blynedd, mae perthnasau llinell esgynnol uniongyrchol person Gogledd Iwerddon yn gymwys.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i gadarnhau bod eich aelod o'r teulu yn berson o Ogledd Iwerddon a'ch perthynas i'r aelod o'r teulu trwy anfon ei basbort Gweriniaeth Iwerddon neu'r Deyrnas Unedig gwreiddiol a'ch tystysgrif geni neu dystysgrif priodas sy'n dangos eich perthynas i'r unigolyn.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.26**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.7 Statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**

**Os ydych yn ddinesydd yr UE**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.26**.

**Os ydych yn aelod o deulu gwladolyn yr UE**

Rhaid i chi hefyd anfon prawf o'ch perthynas â gwladolyn yr UE.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.27**.

Y Tiriogaethau Tramor Prydeinig dynodedig yw:

- Anguilla;
- Bermuda;
- Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig;
- Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India;
- Ynysoedd Prydeinig y Wyryf;
- Ynysoedd Cayman;
- Ynysoedd Falkland;
- Gibraltar;
- Montserrat;
- Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno;
- De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De;
- St Helena, Ascension a Tristan da Cunha; a
- Ynysoedd Turks a Caicos.

Rhaid eich bod yn mynychu neu'n dilyn cwrs yng Nghymru i fod yn gymwys.

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.8 Gwladolyn yr UE, aelod o deulu gwladolyn yr UE sy'n byw yn Gibraltar**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr/gwraig/partner sifil;
- rhiant/llys-riant neu berthynas uniongyrchol esgynnol arall;
- plentyn neu lysblentyn neu ddisgynnydd uniongyrchol arall (rhaid bod dan 21 oed neu'n ddibynnol ar wladolyn yr UE) gwladolyn yr UE sy'n byw yn Gibraltar.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Diffinnir perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol fel rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid biolegol ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati.

**Os ydych yn ddinesydd yr UE**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.26**.

**Os ydych yn aelod o deulu gwladolyn yr UE**

Rhaid i chi hefyd anfon prawf o'ch perthynas â gwladolyn yr UE.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.27**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.9 Aelod o deulu dinesydd y DU sy'n byw yn Gibraltar**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- plentyn, llysblentyn neu ddisgynnydd uniongyrchol arall (rhaid i chi fod o dan 21 oed neu'n ddibynnol ar wladolyn y DU)

i wladolyn y DU sy'n preswylio yn Gibraltar.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Os ydych yn wladolyn y DU, rhaid i chi anfon eich pasbort DU gwreiddiol, neu dystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol y DU.

Os ydych yn aelod o deulu gwladolyn y DU, rhaid i chi:

- anfon eich pasbort dilys, neu dystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol;
- darparu tystiolaeth i gadarnhau bod aelod o'ch teulu yn wladolyn y DU; a
- phrofi eich perthynas â'ch aelod teulu sy'n wladolyn y DU trwy anfon ei basbort DU gwreiddiol, neu dystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol o'r DU a'ch tystysgrif geni neu dystysgrif priodas (os yw hyn yn dangos prawf o genedligrwydd yn y DU a'ch perthynas ag ef/hi).

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.26**.

### 4.10 Plentyn gwladolyn y Swistir

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid bod gan eich rhiant neu lys-riant statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Rhaid bod gennych chi statws sefydlog neu breswylydd cyn-sefydlog ac yn preswylio fel arfer yn y DU, yr AEE, Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor am y tair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

Ewch i'r adran hanes preswylio ar dudalen 22 i gael gwybod pryd mae eich blwyddyn academaidd yn dechrau.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid i'ch rhiant sy'n wladolyn y Swistir fod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Rydym angen llythyr wedi ei lofnodi gan eich rhiant Swisaidd yn datgan ei gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, a'i fod yn byw yno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd.

Rhaid i'r rhiant hefyd anfon un o'r dogfennau canlynol:

- datganiad banc
- slip cyflog
- cytundeb tenantiaeth/datganiad morgais
- bil cyfleustodau
- gohebiaeth gan awdurdod lleol
- gohebiaeth gan adran llywodraeth

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.27**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

### 4.11 Gweithiwr o'r AEE neu'r Swistir

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.26**.

**Mae angen i chi anfon:**

- ffurflen Statws Cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig.

Mae'r 'ffurflen Statws Cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig' ar gael i'w lawrlwytho o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Gallwch lenwi a dychwelyd y ffurflen atodol hon ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth ategol gyda'r brif ffurflen gais i sicrhau bod eich cyllid yn ei le cyn gynted â phosibl.

Os na allwch ddychwelyd eich ffurflen atodol gyda'ch prif ffurflen gais, dylech ei hanfon atom cyn gynted â phosibl. Ni fyddwn yn gallu cadarnhau y gallwch gael Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig heb y ffurflen atodol hon wedi ei llenwi.

### 4.12 Aelod o'r teulu gwladolyn Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu gwladolyn Swisaidd

Sylwer - mae plant, llys-blant, disgynyddion uniongyrchol eraill neu aelodau teulu llinell esgynnol uniongyrchol yn berthnasol i aelodau teulu sy'n weithwyr AEE yn unig

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- riant, llys-riant (ddim ond yn berthnasol i aelodau'r teulu sy'n weithwyr AEE);
- plentyn neu lysblentyn
- ddisgynnol uniongyrchol (ddim ond yn berthnasol i aelodau'r teulu sy'n weithwyr AEE)

y gwladolyn AEE neu Swisaidd.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Diffinnir perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol fel rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid biolegol ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati.

**Os mai chi yw'r person sy'n gweithio**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.26**.

**Os mai chi yw aelod o deulu'r gweithiwr**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.27**.

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.12 Aelod o'r teulu gwladolyn Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu gwladolyn Swisaidd**

**Mae angen i chi anfon:**

- ffurflen Statws Cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig

Mae'r 'ffurflen Statws Cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig' ar gael i'w lawrlwytho o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Gallwch lenwi a dychwelyd y ffurflen atodol hon ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth ategol gyda'r brif ffurflen gais i sicrhau bod eich cyllid yn ei le cyn gynted â phosibl.

Os na allwch ddychwelyd eich ffurflen atodol gyda'ch prif ffurflen gais, dylech ei hanfon atom cyn gynted â phosibl. Ni fyddwn yn gallu cadarnhau y gallwch gael Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig heb y ffurflen atodol hon wedi ei llenwi.

**4.13 Plentyn i weithiwr o Dwrci sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig**

I ymgeisio am fenthyciad fel plentyn gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich rhiant o Dwrci yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs.

Rhaid eich bod hefyd yn byw yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs ac wedi byw yn y Deyrnas Unedig, yr AEE, Twrci, Gibraltar neu'r Swistir am 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.27**.

**Ac ar gyfer prawf o'ch perthynas , anfonwch:**

- dystysgrif geni neu briodi neu dystysgrif partneriaeth sifil

**Byddwch hefyd angen anfon prawf o gyflogaeth eich rhiant o Dwrci yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft anfonwch:**

- gontract cyflogaeth

**Ac** mae hefyd angen i chi anfon prawf eich rhiant o Dwrci o'r estyniad o'i Hawl i Aros yn y Deyrnas Unedig wedi 31 Rhagfyr 2020 gan y Swyddfa Gartref.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.14 Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP), Y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS) neu'r Llwybr Ymateb Affganistan (ARR)**

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.28**.

**Dyddiad dod i ben**

Os ydych wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

**Dyddiad dod i ben**

Os yw eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant

wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.29**.

**Cynllun Ex-Gratia Staff Affganaidd a Gyflogwyd yn Lleol**

Mae'r cynllun hwn ar gyfer gweithwyr blaenorol llywodraeth y Deyrnas Unedig a ymddiswyddodd neu a ddiswyddwyd o'u swydd. Nid yw gwladolion Affganaidd sydd wedi eu hail-leoli i'r Deyrnas Unedig dan y cynllun hwn yn gymwys ar gyfer Benthyciad Doethuriaeth Ôl-raddedig.

**4.15 Statws preswylydd heb ei ganiatáu dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**

Mae 'statws preswylydd sefydlog' yn golygu eich bod yn gallu byw yn y DU yn barhaol heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ynghylch hyd eich cyfnod yma.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw un o'r canlynol yn gymwys:

- rydych yn ddinesydd Prydeinig;
- rhoddwyd caniatâd i aros am amser amhenodol i chi;
- mae gennych hawl i gartrefu yn y DU.

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch hawl preswylio parhaol a materion eraill sy'n ymwneud â mewnfudo gan y Swyddfa Gartref.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.26**.

# **Adran 4** Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.16 Aelod o deulu rhywun sydd â statws sefydlog yn y DU**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- blentyn, yn llysblentyn neu'n ddisgynnydd uniongyrchol arall (rhaid i chi fod o dan 21 oed neu'n ddibynnol ar y person sydd â statws sefydlog)

i rywun sydd â statws sefydlog yn y DU.

Mae 'statws sefydlog' yn golygu y gall eich aelod o'r teulu fyw yn y Deyrnas Unedig yn barhaus heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ar am ba hyd y gallwch aros.

Mae'n rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- mae eich aelod o'r teulu yn ddinesydd Prydeinig.
- mae eich aelod o'r teulu wedi cael caniatâd amhenodol i fynediad neu aros.
- mae gan eich aelod o'r teulu hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.27**.

**4.17 Caniatâd mynediad neu aros cyfyngedig dan Gynllun Wcráin**

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.28**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Mae'n rhaid eich bod wedi bod yn briod neu'n bartner sifil i'r person â chaniatâd ar ddyddiad y cais am ganiatâd.

Os ydych chi'n blentyn neu'n llysblentyn i'r person sydd â chaniatâd, mae'n rhaid mai chi oedd y plentyn neu'r llysblentyn ar ddyddiad y cais am ganiatâd, a hefyd o dan 18 oed ar y dyddiad hwnnw.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.29**.

### 4.18 Statws ffoadur

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn ffoadur, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i'r Swyddfa Gartref fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais am loches.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.28**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.29**.

**4.19 Diogelwch Dyngarol**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- **gŵr, gwraig, partner sifil; neu**
- **riant (neu rieni), llys riant**

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.28**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.29**.

### 4.20 Person heb Wladwriaeth

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- **gŵr, gwraig, partner sifil; neu**
- **riant (neu rieni), llys riant**

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.28**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.29**.

**4.21 Caniatâd mynediad neu aros**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.26**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.27**.

**4.22 Caniatâd amhenodol i aros fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd amhenodol i fynediad neu aros fel dioddefwr trais domestig, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.28**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.29**.

**4.23 Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.28**.

**4.24 Caniatâd Calais**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.28**.

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.25 Partner mewn profedigaeth**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd amhenodol i fynediad neu aros fel partner mewn profedigaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **4.28**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **4.29**.

## Adran 5 Eich hanes cyfeiriadau

**5.1 & 5.2 Statws preswylio**

Os oes gennych statws ffoadur dylech ddarparu eichmanylion cyfeiriad o'r pwynt y rhoddwyd eich statwsneu hyd at uchafswm o dair blynedd os oedd eich statwsa roddwyd cyn y pwynt hwnnw.

| **Dyddiad mae astudio yn cychwyn rhwng** | **Dyddiad mae'r flwyddyn academaidd yn cychwyn** |
|---|---|
| 1 Awst hyd 31 Rhagfyr yn gynhwysol | 1 Medi |
| 1 Ionawr hyd 31 Mawrth yn gynhwysol | 1 Ionawr |
| 1 Ebrill hyd 30 Mehefin yn gynhwysol | 1 Ebrill |
| 1 Gorffennaf hyd 31 Gorffennaf yn gynhwysol | 1 Gorffennaf |

## Adran 8 Datganiad Benthyciad

**Atwrneiaeth**

Os na allwch chi lofnodi'r ffurflen, rhaid ei llofnodi ar eich atwrnai. Rhaid anfon llythyr Atwrneiaeth gyda'r cais cyn y derbynnir llofnod gan yr atwrnai hwnnw.